# Uned16

# Technegau Pigiadu

# Taflen Wybodaeth

## Rhoi Pigiad

Gellir rhoi pigiadau mewn 1 o 4 dull:

1. Isgroenol - o dan y croen
2. Mewngyhyrol - i mewn i'r cyhyr
3. Mewngroenol - i mewn i'r croen e.e. profi TB
4. Mewnwythiennol - yn uniongyrchol i'r llif gwaed (Milfeddyg yn unig fel arfer).

## Pwyntiau Cyffredinol ar Bigiadu Diogel Effeithiol

- Darllenwch label y moddion cyn trin yr anifail i wirio'r dull gweinyddu a chyfradd y dos
- Mae glanweithdra a hylendid o gwmpas lleoliad y pigiad yn bwysig iawn
- Rhaid osgoi difwyno'r nodwydd e.e. baw neu waed o anifail blaenorol
- Newidiwch y nodwyddau'n rheolaidd
- Sicrhewch fod yr anifail wedi ei ffrwyno'n dda i atal y nodwydd rhag symud neu dorri.

## Sut i Lenwi'r Chwistrell

- Ysgwydwch y botel i wneud yn siŵr bod y cynnwys wedi cymysgu'n drylwyr
- Gyda phlymiwr y chwistrell wedi ei wasgu a'r botel yn cael ei dal wyneb i waered, mewnosodwch y nodwydd trwy'r topyn rwber
- Daliwch y chwistrell ar lefel y llygaid a thynnwch y plymiwr yn ôl hyd nes y bydd gennych y dos cywir.

## 1. Sut i bigiadu'n Isgroenol

### i. Gwartheg

1. Gan ddefnyddio eich llaw chwith, plygwch y croen llac y tu ôl i'r ysgwydd a daliwch y pigiad gyda'r llaw dde
2. Rhowch eich mynegfys llaw dde o flaen y nodwydd i osgoi pigo'r fuwch
3. Arhoswch nes bod y fuwch yn dawel a llonydd ac yna mewnosodwch y nodwydd ar ongl 45 gradd, a gwasgwch y faril yn araf
4. Ni ddylai fod unrhyw wrthwynebiad. Os digwydd hyn, mae'n golygu bod y nodwydd wedi mynd i mewn i'r croen garw
5. Ar ôl i chi bigiadu'r toddiant, gadewch i'r croen fflatio, daliwch leoliad y pigiadu gyda'ch bawd ac yna tynnwch y nodwydd yn ofalus
6. PEIDIWCH ag ysgwyd y nodwydd o gwmpas wrth ei thynnu allan gan fod hwn yn achosi poen i'r anifail.

### ii) Defaid

- Mae angen nodwydd lai o hyd
- Dewiswch naill ai plyg y croen y tu ôl i'r ysgwydd neu blyg y croen y tu ôl i'r gwddf
- Dowch o hyd i'r croen trwy wahanu'r gwlân
- Gan ddefnyddio'ch llaw chwith, plygwch y croen llac y tu ôl i'r ysgwydd a daliwch y pigiad gyda'r llaw dde
- Rhowch eich mynegfys llaw dde o flaen y nodwydd i osgoi pigo'r ddafad
- Arhoswch nes bod y ddafad yn dawel a llonydd ac yna mewnosodwch y nodwydd ar ongl 45 gradd, a gwasgwch y faril yn araf

- Eto, ni ddylai fod unrhyw wrthwynebiad, ond os yw hyn yn digwydd, tynnwch y nodwydd allan yn ofalus, a mewnosodwch eto'n ofalus yn y lle cywir.

## 2. Sut i bigiadu'n Fewngyhyrol

### Gwartheg

- Ffrwynwch yr anifail – mae hon yn agwedd bwysig o les anifeiliaid, a hefyd yn bwysig o ran eich diogelwch chi
- Gwnewch yn siŵr fod y blew'n lân a sych i leihau'r perygl o heintio'r nodwydd cyn tyllu'r croen
- Daliwch y nodwydd yn eich llaw dde
- Paratowch y croen o amgylch y lle pigiadu trwy ei daro'n ysgafn â'ch dwrn, ac ar y 3ydd tap, tyllwch y croen â'r nodwydd
- Gosodwch y pigiad ar y nodwydd a phigiadwch y toddiant yn araf
- I dynnu'r nodwydd, daliwch y croen o'i chwmpas gyda'ch llaw chwith ac, yn ofalus, tynnwch y nodwydd allan
- Rhwbiwch leoliad y pigiad yn dyner i wasgaru'r moddion.

### Defaid

- Ffrwynwch yr anifail – mewn rhedfa ddefaid fel arfer
- Sicrhewch fod y gwlân yn lân a sych i leihau'r perygl o heintio'r nodwydd cyn tyllu'r croen
- Daliwch y chwistrell, gyda'r nodwydd yn eich llaw dde
- Dewiswch leoliad y pigiad lle mae digon o gyhyr
- Rhowch bigiad sydyn trwy'r croen
- Chwistrellwch y toddiant yn araf
- I dynnu'r nodwydd, daliwch y croen o'i chwmpas gyda'ch llaw chwith ac, yn ofalus, tynnwch y nodwydd allan
- Rhwbiwch leoliad y pigiad yn dyner i wasgaru'r moddion.

### Lleoliadau Pigiad

**DARLLENWCH Y LABEL MEDDYGINIAETH BOB AMSER ER MWYN EI ROI YN Y DULL CYWIR**

Mae'r tabl isod yn dangos lleoliadau pigiadau mwyaf cyffredin

| Dosbarth anifail | Isgroenol | Mewngyhyrol |
|---|---|---|
| Buwch odro / heffer | Croen llac y tu ôl i'r ysgwydd | Cyhyr pelfig ffolennol |
| Defaid, mamog a hwrdd | Croen llac y tu ôl i'r ysgwydd neu'r gwddf | Cyhyr y goes ôl |
| Ŵyn | Croen llac y tu ôl i'r ysgwydd neu'r gwddf | Cyhyr y gwddf |
| Lloi | Croen llac y tu ôl i'r ysgwydd neu'r gwddf | Cyhyr y goes ôl |
| Anifail bîff/stôr gorffenedig | Croen llac y tu ôl i'r ysgwydd neu'r gwddf | Cyhyr y gwddf |

### Pigiadu meintiau mawr o doddiant o dan y croen e.e. calsiwm neu fagnesiwm

Weithiau mae angen dos mawr o dan y croen.  Defnyddir falfiau fflytyr.

### Sut mae defnyddio falf fflytyr

- Cysylltwch ben y falf fflytyr i wddf y botel ac yna trowch y botel ben i waered

- Gwiriwch nad oes dim aer yn y tiwb a bod yr hylif yn llifo drwy'r tiwb
- Mewnosodwch y nodwydd yn y fuwch – yn isgroenol fel arfer y tu ôl i'r ysgwydd
- Cysylltwch y tiwb fel mae'n llifo i'r nodwydd
- Addaswch uchder y botel i addasu cyfradd y llif - cyfradd swigod
- Rhennwch feintiau mawr yn 2 - naill ystlys.

**Dewis Nodwydd**

Mae dewis nodwydd yn bwysig oherwydd

- Gall poen gael ei leddfu efo'r trwch cywir
- Mae hylifau a chwistrellir yn medru bod yn dew neu'n denau
- Rhaid i'r toddiant dreiddio i'r dyfnder cywir.

**Disgrifir nodwyddau yn ôl set o rifau**

Mae'r rhifau'n cyfeirio at hyd y nodwydd, a thrwch y nodwydd
(y term cywir yw mesurydd).

Ceir nodwyddau o bob math o hyd a thrwch.

**Enghreifftiau**



**O'r Top**
18G x ¾ modfedd
16G x 1 modfedd
16G 1.5 modfedd